**CYFARFOD y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ar ddydd Mercher 21ain Gorffennaf 2021 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Chamberlain-Jones, K.R. Jones, Mrs. P.M. Jones, Mrs. D.L. King, Ms. J. McAlpine, Ms V. Roberts, A.J. Rutherford, a Miss C. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd T. Thomas (sylwedydd)
Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

## 14. CYCHWYN Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr B. Mellor, Miss S. Roberts a Mrs. M. Walker.

## 15. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd yr Aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych yn ddiweddar wedi datgan argyfwng yr hinsawdd yn ffurfiol ac felly byddent yn dymuno bod camau'n cael eu cymryd nawr gan ddatblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio i sicrhau bod holl geisiadau mwy ar gyfer datblygiad yn gwneud y defnydd mwyaf o dechnolegau presennol i leihau'r effaith ar yr hinsawdd.

| **ATODLEN CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
|---|---|
| 15.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** SW yn Greenfield Place, y Rhyl<br><br>**WARD:** Pendyffryn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD:** Mrs. D.L. King<br>A.J. Rutherford<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2021/0535<br><br>**DISGRIFIAD:** Hysbysiad Cymeradwyo Ymlaen Llaw ar gyfer Polyn Mono 20.0m Gwedd C/W arfaethedig a Chabinet a gwaith ategol cysylltiedig.<br><br>**YMGEISWYR:** CK Hutchison Networks (UK) Ltd, Great Brighams Mead, Vastern Road, Reading<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Gwrthwynebu am y rhesymau canlynol:* |

| | |
|---|---|
| | - *ystyrir bod lleoliad y mast arfaethedig ar y brif fynedfa i'r dref yn annerbyniol. Byddai'r Cyngor Tref yn awgrymu ei fod y cael ei osod mewn lleoliad llai gweladwy ar y safle sy'n cyffinio cefn siop ddisgownt Poundstretcher a fyddai'n ei guddio o gyfeiriad Vale Road.*<br><br>- *Gofyn i'r Adran Gynllunio ddarparu manylion unrhyw gronfa manteision cymunedol sy'n codi o osod mastiau o'r fath.*<br><br>***Mae'r Cyngor yn dymuno codi er sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei bryderon bod diffyg dogfennau neu wybodaeth ar gael ar Borth Cynllunio'r Cyngor Sir – dim ond y ffurflen gais sydd ar gael heb gynlluniau na manylion y cais.***<br><br>***Mae'r Cyngor felly wedi gwneud ei benderfyniad ar sail yr hysbysiad cyn cais cynllunio, ac mae;n derbyn y gallent fod wedi newid.*** |
| 15.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 32 Lon Hedyn, y Rhyl<br><br>**WARD:** Tynewydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: B. Blakeley<br>B. Jones<br>Miss C.L. Williams<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2021/0645<br><br>**DISGRIFIAD**: Dymchwel ystafell haul bresennol ac adeiladu estyniad un llawr ar yr ochr, gosod paneli solar a gwaith cysylltiedig.<br><br>**YMGEISWYR:** Mr. Jamie McMonnies o'r cyfeiriad<br><br>***PENDERFYNIAD:*** *Dim gwrthwynebiad* |

## 16. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion pellach, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ……………...............